# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

**2020/21**

**Arbed Dyfodol: Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol.**

## 1. Aelodaeth y grŵp a deiliaid swyddi

Cadeirydd: Jayne Bryant AS

Aelodau eraill o'r Senedd: xx

Rhennir y cyfrifoldeb am ysgrifenyddiaeth y grŵp rhwng NSPCC Cymru, Stop it Now! Cymru, Survivors' Trust Cymru, Stepping Stones Gogledd Cymru a Chanolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru

## 2. Cyfarfodydd blaenorol y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

### Cyfarfod 1.

***Dyddiad y cyfarfod:*** 3 Gorffennaf 2020
***Yn bresennol:***

Cecile Gwilym
Linda Grace
Sam Clutton
Martin Mahoney
Lillith Gough
Jeff Cuthbert
Faith McCreadie
Sandra White
Martin Mahoney
Claire Short
Jennie Henderson
Sandra White
Owen Evans
Fflur Emlyn
David Hopkins
Gill Jones
Phillip Walker
Kirsty Hudson
Jule Mc

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***:

Canolbwyntiodd y cyfarfod ar effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc a sut i'w cefnogi. Ystyriodd y cyfarfod symud i therapi ar-lein i blant a phobl ifanc sydd wedi bod yn destun cam-drin rhywiol. Ystyriwyd hefyd ganfyddiadau cynnar ynghylch risg uwch a chymhlethdod achosion. Rhoddodd Llywodraeth Cymru y wybodaeth ddiweddaraf ar waith i gefnogi plant yn ystod y cyfyngiadau symud a rhannwyd papurau.

### Cyfarfod 2.

***Dyddiad y cyfarfod:*** 4 Tachwedd 2020

***Yn bresennol:***

Cecile Gwilym
Linda Grace
Sam Clutton
Martin Mahoney
Lillith Gough
Jeff Cuthbert
Faith McCreadie
Sandra White
Martin Mahoney
Claire Short
Jennie Henderson
Sandra White
Owen Evans
Fflur Emlyn
David Hopkins
Gill Jones
Phillip Walker
Kirsty Hudson
Jule Mc

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd***:

Roedd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd adferiad i blant yn dilyn y pandemig. Mae'r argymhellion i Lywodraeth Cymru yn cynnwys:

**Mynediad at gefnogaeth**: Rhaid i gymorth ar gyfer blant a phobl ifanc y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio arnynt fod ar gael ledled Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr amcan yn eu cynllun gweithredu ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, i blant gael mynediad at wasanaethau sy'n seiliedig ar drawma, yn cael ei wireddu. Dylid hefyd ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r model Tŷ Plant a sut y gellir gweithredu hyn yng Nghymru.

**Addasu gwasanaethau**: Gan fod disgwyl i fesurau cadw pellter cymdeithasol barhau am beth amser, rhaid i wasanaethau cymorth fod â'r adnoddau, y cymorth a'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu priodol ar waith i barhau i gynnig cymorth rhithwir ac wyneb yn wyneb lle bo'n briodol ac yn ddiogel i wneud hynny.

**Cefnogaeth ar gyfer ysgolion:** Ysgolion yw'r prif wasanaeth cyffredinol y mae plant a phobl ifanc yn rhyngweithio â nhw. Bydd gofyn iddynt gefnogi plant sydd wedi profi trawma a cham-drin dros y ddau gyfnod clo, felly rhaid iddynt gael adnoddau priodol i sylwi arwyddion y cam-drin hwn. Rydym yn llwyr gefnogi'r penderfyniad, gan Lywodraeth Cymru, i roi cymorth therapiwtig i blant iau mewn lleoliadau ysgol, ond mae'n glir bod yn rhaid defnyddio therapïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant ifanc, gan nad ydynt bob amser yn elwa ar fodelau cwnsela traddodiadol.

**Cyfarfod 3:**

**Dyddiad y cyfarfod: 4 Mawrth 2021**
**Yn bresennol:**

**Siaradwyr**
Jahnine Davies – Listen Up
Fateha – Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)
Sam Clutton - Llywodraeth Cymru
Jayne Bryant AS

**Yn bresennol**
Gill Jones – Stop it Now!
Catrin Simpson – Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
Stuart Williams – Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU Cymru)
Jo Robinson – Heddlu Gwent
Helen Stacey – Llwybrau Newydd (New Pathways)
Dr Clare Bennett – Prifysgol Caerdydd
Jan Pickles – Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Mai Baxter Thornton – Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)
Bethan James – Rhwydwaith Cenedlaethol yr Heddlu (PNN), De Cymru
Linda Grace – Jigso

Janice Dent – Arweinydd Rhanbarthol, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
Damian Rees a Kelly Shannon – Awdurdod lleol Abertawe
Helen Gordon – Cydlynydd Addysg Rhanbarthol, VAWDASV
Myfanwy Kirkwood – Heddlu Gogledd Cymru
Sarah Keefe – Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
Sarah Walton – Stop it Now
Hannah Dicks – Tarian
Dora Szalkay – Staff Cymorth y Senedd
Claire Short – Stop it Now!
Berni – Stepping Stones
Philip Walker – Ymddiriedolaeth y Goroeswyr
Fay – Ymddiriedolaeth y Goroeswyr
Cecile Gwilym – NSPCC
Elinor Crouch-Puzey – NSPCC

**Crynodeb o’r materion a drafodwyd**

Ystyriodd y cyfarfod anghenion plant ar y cyrion sydd wedi’u niweidio gan gam-drin plant yn rhywiol.

Pwyntiau allweddol a nodwyd gan y siaradwyr

Jahnine Davies, Listen Up

- Canfyddiadau hyper-rywiol o ferched Du, a sut y gall y sefyllfa hon effeithio ar sut y maent yn cael eu trin yng nghyd-destun gwasanaethau.
- Y cysyniad o 'oedoli', a sut y gall hyn arwain at ddinistrio diniweidrwydd plant. Mae'r cysyniad o 'oedoli' yn cael ei gymhwyso'n fwy aml i ferched Du.
- Mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan ymdrechion i israddio merched Du, ac yn arwain at y cwestiwn: 'Pwy sy'n eu diogelu?'
- Y gwaith ymchwil a wnaed gan Jahnine yn 2019 oedd y gwaith cyntaf o'i fath a oedd yn canolbwyntio ar ferched Du. Canfu’r ymchwil a wnaed gyda menywod Du a merched Du eu bod yn aml yn teimlo nad oes unrhyw un yn eu gwerthfawrogi, nad yw eu profiadau yn cael eu hadlewyrchu, ac nid yw'r Heddlu yn ystyried eu bod yn agored i niwed.
- Mae angen gwasanaethau arbenigol arnom sy'n deall anghenion pobl, ond hefyd mae angen hyfforddiant ynghylch deall yr anghenion hyn ar wasanaethau cyffredinol.

Fateha, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST)

- Gall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag ceisio cymorth gynnwys y canlynol: stigma, cywilydd, defnydd iaith wrth siarad am ryw a cham-drin, yn ogystal â rhwystrau iaith rhwng rhieni a phlant mewn perthynas â rhieni sy’n fewnfudwyr a phlant mewnfudwyr.
- Ofn ynghylch ymgysylltu â gwasanaethau cymdeithasol.
- Mae'r tramgwyddwr yn aelod o'r teulu neu'n aelod uchel ei barch yn y gymuned dan sylw.
- Mae EYST yn cynnal grwpiau ffocws gyda theuluoedd ynghylch sut y gall gwasanaethau gydweithio'n well â chymunedau lleiafrifol. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Ymwybyddiaeth iaith a sicrhau bod adnoddau ar gael mewn ieithoedd cymunedol
- Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ynghylch y rhwystrau a’r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth achosion o gam-drin mewn gwahanol garfannau
- Gwell gwybodaeth ynghylch sut y gellir adrodd ar achosion o gam-drin
- Dylai fod gan fannau [addoli] bolisïau gorfodol ar sut i ymdrin ag achosion o gam-drin plant yn rhywiol
- Sesiynau sgiliau digidol ar gyfer rhieni
- Canllawiau gweledol ar gyfer teuluoedd

Dr Sam Clutton, Llywodraeth Cymru

- Yn sgil COVID, bu chwe mis o oedi o ran adrodd ar y Cynllun Gweithredu. Disgwylir hyn ar 30 Mehefin.
- Mae cam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn fater tabŵ i raddau gwahanol ar draws gwahanol gymunedau.
- Mae Sam yn awyddus i ymchwilio i'r cam o gynhyrchu cymhorthion gweledol, yn unol ag awgrym Fateha.
- Mae canllawiau yn cael eu datblygu ar gyfer ymarferwyr mewn perthynas â phlant BME, plant sydd ag anableddau dysgu a phlant LGBT+.
- Mae prinder ymchwil ynghylch cam-drin plant yn rhywiol mewn perthynas â phlant Du a phlant lleiafrifol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darllen adroddiad gan y Ganolfan Arbenigedd sy'n canolbwyntio ar y mater hwn. Disgwylir i'r adroddiad fod ar gael ar 21 Mawrth.
- Disgwylir i gyfrol 7 o'r rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl gael ei chyhoeddi ar 18 Mawrth. Bydd yn cynnwys canllawiau ar gefnogi goroeswyr Du, goroeswyr lleiafrifol a goroeswyr sy'n ffoaduriaid.
- Roedd Sam yn glir ynghylch y ffaith bod angen dod ag arbenigedd gwasanaethau ym maes trais rhywiol ac arbenigedd gwasanaethau eraill ynghyd er mwyn darparu cymorth gwell i bob plentyn.

# Datganiad Ariannol Blynyddol

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Rwystro Plant rhag cael eu Cam-drin yn Rhywiol

Cadeirydd: Jayne Bryant AS
Ysgrifenyddiaeth: NSPCC Cymru, Stop it Now! Wales a The Survivors Trust Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp.** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau.** | | |
| **Buddiannau a gafodd y Grŵp neu'r aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddol neu gymorth arall** | Ni dderbyniwyd unrhyw gymorth ariannol. | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch** | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | 0 |
| | **Cyfanswm y gost** | |